O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2741 (Cy. 293)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A4076 (Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed	*1 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*12 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40) a Chefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i gludo llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Tachwedd 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A4076 (Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwyth anarferol na ellir ei rannu sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" *("transportation period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith